

Academi Gwelliant Cymru Canllaw Pecyn Cymorth



Profi Newidiadau

Cyflwyniad

Mae profi newidiadau yn agwedd hanfodol ar unrhyw brosiect gwella. Cyn gweithredu datrysiad, mae angen ei brofi'n drylwyr.

Cyn gweithredu eich newid, byddech eisoes wedi creu datganiad problemau a nodau sy'n cefnogi'r newidiadau yr ydych ar fin eu gwneud. Gweler ein canllaw pecyn cymorth 'Deall eich Problem' a 'Nodau CAMPUS' i gael rhagor o wybodaeth.

Rhesymeg


Mae'r rhesymeg y tu ôl i brofi newid yn golygu y gall tîm neu sefydliad wneud gwelliannau mesuradwy bach, gan ddysgu o bob cylch newid, sy'n llywio'r cylch nesaf. Trwy weithredu un newid ar y tro, gallwch ddatblygu gwir ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd, ar sail eich datganiad o broblem, a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i wella'ch nod.

Beth yw profion newid?

Mewn gwaith gwella ansawdd, mae profi newidiadau yn eich cefnogi i adeiladu ar yr hyn rydych chi eisoes yn ei wybod a gweithredu ffyrdd profedig o weithio o fewn proses neu sefydliad. Mae profi newidiadau yn rhan o'r Model ar gyfer Gwella. Rydym yn defnyddio'r model Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu (CGAG) ar gyfer profion newid. Mae pob prawf yn cynnwys cylchoedd newid lluosog, neu gylchoedd CGAG. Mae hwn yn offeryn defnyddiol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion gwyddor gwelliant a ddefnyddir ar gyfer dysgu sy'n canolbwyntio ar weithredu, lle mae cynllunio ac actio'r hyn a ragfyngwyd gennych yn golygu y gallwch ei astudio, cwblhau'r dasg a dod i benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r newid hwnnw, ei addasu neu roi'r gorau iddo.



Y Model ar gyfer Gwella



Camau yn y cylch CGAG a sut i wneud eich profion newid

Yn gyntaf, mae angen i chi gynllunio eich prawf; mae hyn yn gofyn i chi wneud y canlynol:

Cynllunio

- Ysgrifennu amcan eich prawf newid
- Gwneud rhagfynegiadau ar sail yr hyn a fydd yn digwydd, yn eich barn chi, a'r rhesymau pam.
- Dyfeisio cynllun i wneud eich prawf newid.
- Meddwl pwy? beth? ble? ble? A pha ddata y bydd angen i chi eu casglu.

Gwneud

Nesaf, mae'n bryd gwneud eich prawf newid.

- Gwnewch eich prawf.
- Cofnodwch unrhyw broblemau, materion, neu unrhyw beth annisgwyl yr ydych chi a'ch tîm prosiect yn ei weld.
- Dechreuwch edrych ar eich data.

Astudio

Yna, mae'n bryd dadansoddi eich data ac astudio eich canlyniadau.

- Gorffennwch y gwaith o ddadansoddi'ch data.
- Cymharwch eich data ar sail eich rhagfynegiadau.
- Myfyriwch gyda'ch tîm ar yr hyn a ddysgwyd.

Gweithredu

Yn olaf, meddyliwch am newidiadau ar sail yr arsylwadau o'ch prawf, a'u gweithredu.

- Penderfynwch ba newidiadau y mae angen eu gwneud ar sail y meini prawf canlynol
 - Addasu** – gwneud newid arall sy'n cefnogi eich nod.
 - Rhoi'r gorau iddi** – peidio â pharhau i wneud unrhyw newidiadau pellach gan nad oedd y newid yn effeithiol.
 - Mabwysiadu** - penderfynu bwrw ymlaen a gweithredu'r newid hwnnw, gan mai ef a gafodd yr effaith fwyaf ar eich data a'ch prosiect.
- Dechreuwch gynllunio ar gyfer y cylch nesaf o newid h.y. CGAG.

Mae'n bwysig nodi bod pob prawf newid yn gofyn am gylchoedd newid lluosog h.y. CGAG

Pam cynnal profion newid?

Mae sawl rheswm pam y byddai unigolyn neu sefydliad yn cynnal profion newid. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ac nid ydynt yn amodol arnynt:

- Rydych chi wedi sylwi ar broblem proses o fewn eich sefydliad neu eich tîm yr ydych chi'n teimlo y gellid ei gwella ac mae gennych chi ddiddordeb mewn gwneud eich prawf.
- Rydych chi wedi cael nifer o newidiadau i'w gwneud, ac rydych chi'n dymuno gwneud y gwelliant mwyaf effeithiol ac effeithlon tuag at ganlyniad dymunol.

- Gwella costau gwasanaeth a cheisio gweithredu ffyrdd o gyflawni hyn.
- Gwella rheolaeth ansawdd a lleihau gwastraff.

Mae'n bwysig nodi bod angen newid ar gyfer pob gwelliant, ond nid yw pob newid yn arwain at welliant.

Enghraifft o brawf newid (cylch CGAG)

Problem: Mae cleifion yn treulio 25 munud yn y man aros, gan achosi gorlenwi ac ymddygiad gwael tuag at staff.

Nod: Lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio yn y man aros o 25 munud i 10 munud erbyn 31 Rhagfyr.

Practis Meddygon Teulu: Lleihau amseroedd aros am apwyntiadau

- **Cynllunio:** Ysgrifennu llythyr at gleifion yn eu hannog i gyrraedd ddim mwy na 5 munud cyn eu hapwyntiad er mwyn lleihau'r amser aros am eu hapwyntiad.
- **Gwneud:** Cyfrif nifer y cleifion sy'n cyrraedd 5 munud cyn eu hapwyntiad pan fyddant yn cofrestru yn nerbynfa'r practis meddygon teulu.
- **Astudio:** Cyn pen mis ar ôl anfon y llythyr, dim ond 40% o gleifion a oedd yn cyrraedd fwy na 5 munud yn gynharach nag amser eu hapwyntiad, gan arwain at lai o bobl yn y man aros a mwy o bobl yn cael eu gweld gan y meddyg teulu yn nes at amser eu hapwyntiad.
- **Gweithredu:** Addasu'r broses hon a'i hadolygu ymhen mis, gan fonitro'r data i weld a yw'r ganran wedi cynyddu neu wedi aros yr un fath.



Awgrymiadau defnyddiol

- Mae perthnasoedd yn chwarae rhan enfawr wrth wneud newidiadau, ac mae'n bwysig gweithio gyda phobl sy'n fodlon gweithio gyda chi. Y bobl hyn sy'n berchen ar y prosiect gwella, ac maent yn atebol ac yn ymroddedig i'ch prosiect.
- Dewiswch newidiadau sy'n hawdd i'w gweithredu, a fydd yn arwain at yr effaith fwyaf, y mae gennych lefel o reolaeth drostynt.
- Cymerwch amser i feddwl am ganlyniadau'r newidiadau a wnaed; mae'r cwestiynau allweddol yn cynnwys - beth oeddem ni'n meddwl fyddai'n digwydd ar y dechrau o'i gymharu â'r hyn sydd wedi digwydd? A oedd unrhyw beth a ddigwyddodd a oedd yn syndod? Beth oedd canlyniad mwyaf y newid hwn?

Adnoddau ychwanegol

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu rhagor am welliant, ewch i'n gwefan <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/academi-gwelliant-cymru/>. Hefyd, mae gennym amrywiaeth o ganllawiau pecyn cymorth eraill sy'n ategu'r adnodd hwn, neu anfonwch e-bost atom improvementcymruacademy@wales.nhs.uk

Adnoddau pellach

Parth Gwella Ansawdd [ar-lein] Ar gael yn: [Profi syniadau newid | Turas | Learn \(nhs.scot\)](#) [Cyrchwyd 27 Chwefror 2023]

Gwyddor Gwelliant: Profi Newidiadau [ar-lein] Ar gael yn: [Gwyddor Gwelliant: Profi Newidiadau | IHI - Sefydliad Gwella Gofal Iechyd](#) [Cyrchwyd 27 Chwefror 2023]

